cyfrifiad 2021

Gadëwch i ni gyfrif!

Annwyl Riant neu Ofalwr

Rydym yn cymryd rhan yn Gadewch i ni Gyfrif!

Rydym ni wrth ein bodd i fod yn cymryd rhan yn **Gadewch i ni Gyfrif!**, y rhaglen gyffrous ac arobryn i ysgolion sy'n helpu plant i ddysgu am y cyfrifiad a pham mae'n bwysig i bawb.

Beth yw Cyfrifiad 2021?

Caiff y cyfrifiad nesaf ei gynnal ddydd Sul 21 Mawrth 2021. Arolwg sy'n digwydd bob 10 mlynedd yw'r cyfrifiad ac mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn helpu i gynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn ein hardal leol. Drwy gymryd rhan yn y cyfrifiad, byddwch yn gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed er mwyn adeiladu dyfodol gwell i'ch plant a'n cymuned leol.

Byddwch yn cael llythyr yn y post gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Yna, bydd angen i chi lenwi holiadur y cyfrifiad ddydd Sul 21 Mawrth 2021 neu cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwnnw. Gallwch fynd i www.cyfrifiad.gov.uk i gael mwy o wybodaeth am sut i gwblhau holiadur y cyfrifiad.

Beth yw Gadewch i ni Gyfrif!?

Datblygwyd Gadewch i ni Gyfrif! gan y SYG a'r ganolfan adnoddau, iChild, er mwyn addysgu plant am y cyfrifiad mewn ffordd hwyliog. Mae'r adnoddau yn cynnwys cymeriadau cartŵn 'Cathod Cyfrif', sydd wedi'u cynllunio i helpu gyda'r broses ddysgu. Maent yn cefnogi dysgu'r plant yn yr ystafell ddosbarth ac yn y cartref. Mae gan bob cath ei hoff bwnc: Mae Splotch yn dwli ar gelf, mae Doc yn dwli ar hanes, mae Digit yn dwli ar fathemateg, mae Scribble yn dwli ar Saesneg ac mae Scout yn dwli ar ddaearyddiaeth.

Diwrnod Gadewch i ni Gyfrif!

Ar Ddiwrnod Gadewch i ni Gyfrif!, bydd y plant yn cyfrif pethau o amgylch ein hysgol neu'r ardal leol ac yn casglu data ar bynciau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd y wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu yn cael ei defnyddio i wneud arddangosfa, y byddwn ni'n ei defnyddio i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Gadewch i ni Gyfrif! **Bydd gwobrau yn cael eu rhoi i'r cynigion gorau a bydd cyfarpar gwerth £1,000 yn cael ei roi i'r ysgol fuddugol.**

Dysgwch fwy am Gadewch i ni Gyfrif! yn:
www.gadewchinigyfrif.org.uk